

Annwyl athrawon/gweithwyr allweddol

Hoffai'r Primary Science Teaching Trust eich cefnogi yn ystod y cyfnod anodd hwn.

<https://pstt.org.uk/resources>

Roeddem yn awyddus i rannu efo chi menter newydd PSTT o'r enw 'gwyddoniaeth yn y gwaith', sy'n cynnwys fideos wythnosol o wyddonwyr/pobl sy'n gweithio mewn swyddi sy'n gysylltiedig â gwyddoniaeth. Caiff plant gyfle i holi cwestiynau a fydd yn cael eu hateb yn ystod y ffrydio wythnosol ar gyfrif Facebook PSTT. Mae rhagor o wybodaeth isod.

Cysylltiadau ar-lein

* Adnodd PSTT gwyddoniaeth yn y gwaith: Roedd y fideo cyntaf yn ymwneud â Florence Nightingale, gyda chysylltiadau clir â'r sefyllfa covid-19 bresennol. Yr wythnos ganlynol, rhannwyd y fideo rhwng meddyg iau yn gweithio ar ward covid-19, ac imiwnolegydd feirysol. Yr wythnos cyn pob fideo, bydd taflenni gweithgareddau yn cael eu rhyddhau efo ysgogiadau i'r plant gael gwybod mwy am yr unigolyn/pobl. Bydd plant yn cael eu gwahodd i uwch lwytho cwestiynau ac/neu lun i wefan PSTT. Bydd y rhain yn cael eu hanfon at y gwyddonydd a fydd yn eu hateb yn ystod y cyflwyniad.

Pethau allweddol y mae angen i chi eu gwneud i gymryd rhan ...

Bob dydd Mawrth, byddwn yn rhyddhau taflen weithgaredd – Gellir lawr lwytho'r rhain o <https://pstt.org.uk/resources/curriculum-materials/Science-at-Work> neu eu hanfon yn syth i'ch cyfeiriad e-bost drwy gofrestru ar ein rhestr bostio.

Cliciwch ar y tab i anfon eich cwestiwn atom isod a chwblhau'r ffurflen i gyflwyno cwestiwn a llwytho llun eich plentyn, erbyn 3yp dydd lau yr un wythnos.

Y dydd Mawrth ganlynol, gwylwch y fideo - dilynwch y ddolen hon a chofiwch lawr lwytho'r daflen weithgaredd ar gyfer y gwyddonydd yr wythnos nesaf.

Syniadau ymarfer: *dau weithgaredd braf gan gydymaith PSTT Mrs Pass (@MrsPassSci).*

Gwneud naid broga!

Offer: papur lliw, siswrn a balŵn.

Sut: torrwyd siapiau broga gan ddefnyddio'r papur; rhwyd nhw ar arwyneb gwastad; chwythwyd falŵn a'i rwbio ar siwmpwr i greu trydan statig; daliwyd y balŵn dros y brogaod a'u gwyllo nhw'n neidio.

Cam ymhellach: a yw gwahanol fathau o bapur a chardfwrdd yn gweithio yn yr un ffordd? Am faint mae'r broga'n glynu? A yw faint o amser yr ydych yn rhwbio'r balŵn yn gwneud gwahaniaeth? Ydy maint y broga yn newid pa mor hir mae'n glynu?

Adeiladu tŵr ciwbiau siwgr!

Offer: plât, dŵr, lliw bwyd, ciwbiau siwgr, ffoil, cling ffilm, hances bapur.

Sut: Ychwanegwch ychydig ddiferion o'r lliw bwyd at rywfaent o ddŵr a'i arllwys ar y plât; ychwanegwch bentwr o giwbiau siwgr a sylwi beth sy'n digwydd (dylai'r dŵr lliw symud i fyny'r pentwr o giwbiau a gwneud iddyn nhw ddisgyn yn y pen draw); Rhowch gynnig ar ychwanegu darn bach o ffoil ar ben un ciwb siwgr a phentyrru mwy ar ei ben ... Ydy hyn yn atal y dŵr rhag cyrraedd y ciwbiau uchaf?

Cam ymhellach: Ceisiwch yr un peth gyda rhywfaint o gling ffilm, a rhywfaint o bapur neu hances bapur. Pa rai sy'n gweithio orau? A yw ciwbiau siwgr brown yn adweithio yn yr un ffordd â rhai gwyn?

Mae gwefan **Explorify** Wellcome Trust yn adnodd am ddim yn llawn gweithgareddau gwyddoniaeth creadigol a difyr, a'u bwriad yw tanio chwilfrydedd, trafodaeth a dadl. O fideos i weithgareddau ymarferol, mae'n hawdd mynd ati i ddarganfod!

<https://explorify.wellcome.ac.uk/blog/explorify-during-school-closures>

Ewch ati i wella eich sgiliau cyflwyno gwyddoniaeth a chael eich disgyblion i feddwl fel gwyddonwyr!

Fideos dysgu o gartref gan SSERC: cymrwch olwg ar y gweithgareddau hyn y gallwch eu gwneud yn y cartref gyda fideos STEM sy'n hwylus wrth law. Mae modd defnyddio'r fideos hyn wrth wneud y gweithgaredd, neu eu gwyllo gyda'ch gilydd ac yna ail-greu'r gweithgaredd. Mae gwneud [llyfr ymchwiliadau gwyddoniaeth](#) yn fideo gwych i ddechrau arni.

Mae'r Amgueddfa Wyddoniaeth wedi llunio casgliad difyr iawn o adnoddau dysgu yn y cartref yma <https://learning-resources.sciencemuseum.org.uk/>

Awgrymiadau am weithgareddau

[Adnodd gwyddoniaeth yn y cartref PSTT](#): edrychwch ar weithgaredd newydd yr wythnos.

Cynllun tyfu gartref RHS: edrychwch ar gyngor a thasgau dyddiol, syniadau i gadw'r plant yn brysur, a help llaw i dyfu eich ffrwythau, llysiâu a pherlysiâu eich hun. Beth bynnag eich profiad, a faint bynnag o le sydd gennych chi, defnyddiwch yr amser hwn i dyfu!

Syniadau am weithgareddau'r Gwanwyn - Science Sparks: arbrofion gwyddoniaeth gwych y Gwanwyn i blant gan dîm Science Sparks. Yn ôl yr arfer, nid oes angen unrhyw offer arbennig arnoch, dim ond pethau rydych yn debygol o'u cael o gwmpas y tŷ yn barod.

Cyfleoedd DPP

Os ydych yn gweld bod gennych fwy o amser, gallech fanteisio ar y cyfle i ddatblygu'n broffesiynol. Edrychwch ar ReachOut CPD <https://www.reachoutcpd.com/> Ewch ati i gyflwyno'r cwricwlwm gwyddoniaeth cynradd yn hyderus. DPP ar-lein, yn rhad ac am ddim, a ddatblygwyd gyda Choleg Imperial Llundain. Wedi'i fapio yn erbyn cwricwlwm Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Peidiwch â cholli'r newyddion diweddaraf gan PSTT. Dyma'r ddolen ar gyfer Cylchlythyr PSTT Haf 2020:

<https://pstt.org.uk/what-we-do/news/PSTT-Summer-2020-newsletter>

Gallwch gofrestru i dderbyn cylchlythyrau PSTT drwy ddefnyddio'r ddolen isod:

<https://pstt.org.uk/who-we-are/contact-us/newsletter>

Oes gennych unrhyw ymholiad ynghylch PSTT cysylltwch â Kathy Schofield, Mentor Rhanbarthol Gogledd Cymru Kathy.schofield@pstt.org.uk